OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 1100

# Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016

## RHAN 2

### Paneli Apelau Cofrestru

**Achosion apelau cofrestru: pan nad oes angen gwrandawiad**

**6.**—(1) Caniateir dyfarnu ar apêl gofrestru sydd gerbron panel apelau cofrestru heb wrandawiad—

(a) os yw'r partïon yn cytuno'n ysgrifenedig y caniateir dyfarnu ar yr achos heb wrandawiad, a

(b) os yw'r panel apelau cofrestru yn penderfynu nad oes angen cynnal gwrandawiad.

(2) Pan ddyfernir ar achos yn unol â pharagraff (1) heb wrandawiad—

(a) caiff cadeirydd y panel wneud penderfyniad terfynol y panel apelau cofrestru;

(b) ar unrhyw adeg yn ystod yr achos caiff y panel apelau cofrestru neu gadeirydd y panel ei gwneud yn ofynnol i wrandawiad apelau cofrestru gael ei gynnal.

(3) Caiff GCC drwy reolau wneud darpariaeth ynghylch y camau y caiff y partïon neu banel apelau cofrestru eu cymryd neu y mae rhaid i'r partïon neu banel apelau cofrestru eu cymryd er mwyn galluogi'r panel i ddod i benderfyniad o ran a oes angen cynnal gwrandawiad.